Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro

## Lefel y gweithgarwch dilynol: Gwelliant Sylweddol

## Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed
## Commercial Street
## Bargoed
## Caerffili
## CF81 8JG

## Dyddiad yr ymweliad: Mehefin 2022

## gan

## Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â’r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu’r ysgol o’r rhestr ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Sicrhau bod arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr, yn gweithredu’n fwy effeithiol wrth osod cyfeiriad strategol i’r ysgol ac yn herio’i pherfformiad

Ers yr arolygiad craidd, mae’r ysgol wedi cydweithio â'r awdurdod lleol i benodi pennaeth gweithredol parhaol ynghyd â dirprwy bennaeth gweithredol dros dro, i arwain yr ysgol hon ac ysgol gyfagos. Yn ddiweddar, mae'r ysgol hefyd wedi penodi dirprwy bennaeth parhaol a fydd yn ymgymryd â’i rôl pan fydd y dirprwy dros dro yn ymadael â’r ysgol ar ddiwedd y tymor hwn. Mae hyn yn sicrhau y bydd gan yr ysgol gyflenwad o arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr parhaol sy’n cyfateb yn briodol i nifer y disgyblion sy’n mynychu’r ysgol ar hyn o bryd.

Mae’r pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer gwelliant ac mae’n rhannu gweledigaeth bwrpasol, sy’n cefnogi gwaith yr ysgol yn effeithiol. Ers ei benodiad yn fuan ar ôl yr arolygiad craidd, mae’r pennaeth wedi ymateb yn llwyddiannus i heriau yn ymwneud â staffio a llywodraethu, yn ogystal ag arwain yr ysgol trwy gyfnod anodd y pandemig Covid-19. Mae hyn wedi cryfhau’r berthynas rhwng yr ysgol â’r rhieni a gwarchodwyr yn ogystal â sefydlu ymdeimlad o dîm ymysg y staff. Mae hyn yn cyfrannu’n dda at yr ethos positif a chydweithio sydd nawr yn bodoli o fewn yr ysgol.

Erbyn hyn, mae gan staff yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o’u rolau a’u cyfrifoldebau ac maent yn cyfrannu’n dda tuag at wella elfennau pwysig o’r ddarpariaeth a safonau a lles disgyblion. Yn ogystal, mae arweinwyr wedi sefydlu agwedd gadarnhaol a threfniadau clir ar gyfer sicrhau gwelliannau parhaol, er enghraifft trwy sefydlu trefniadau rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol pwrpasol ar gyfer yr holl staff. Er gwaethaf effaith y pandemig ar waith yr ysgol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae’r uwch dîm rheoli ynghyd â’r staff a’r llywodraethwyr wedi cydweithio’n effeithiol i wneud cynnydd da yn erbyn y blaenoriaethau.

Mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cydweithio’n llwyddiannus gydag asiantaethau eraill gan gynnwys ysgolion, yr awdurdod lleol a’r consortiwm rhanbarthol. Maent wedi ymgymryd ag ystod berthnasol o hyfforddiant a chefnogaeth bwrpasol i gefnogi cynnydd yn erbyn targedau’r cynllun ôl-arolygiad. Mae gan arweinwyr ac aelodau’r corff llywodraethol berthynas waith effeithiol. Erbyn hyn, mae llywodraethwyr yn dangos dealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol a’i hanghenion datblygu. Mae gan yr aelodau ystod eang o fedrau, gwybodaeth a phrofiad sy’n cefnogi eu gwaith yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn cydweithio ag arweinwyr a staff yr ysgol i werthuso a gwella’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion

dysgu ychwanegol (ADY) a phenodi aelodau staff newydd. O ganlyniad, maent yn defnyddio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn fwy effeithiol i herio'r ysgol am ei pherfformiad ac i gefnogi arweinwyr a staff yn bwrpasol.

### A2. Gwella prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella

Mae arweinwyr wedi mireinio a gwella'r gweithdrefnau hunanwerthuso ers yr arolygiad craidd. Er gwaethaf effaith y pandemig Covid-19 ar drefniadau monitro'r ysgol, maent wedi llwyddo i fesur cynnydd yn erbyn targedau'r cynllun ôl-arolygiad yn effeithiol. Mae'r prosesau hyn yn cynnwys casglu barn staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni. Mae arweinwyr ac athrawon wedi ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau monitro uniongyrchol er mwyn gwerthuso'r ddarpariaeth ynghyd â safonau a lles disgyblion, er enghraifft trwy arsylwi ar sesiynau dysgu a chraffu ar lyfrau. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd i'w gwella sy'n eu galluogi i addasu'r ddarpariaeth a'r cynlluniau gwella yn ôl yr angen. Yn ogystal, mae arweinwyr yn ymateb yn brydlon i ganfyddiadau holiaduron i wella'r ddarpariaeth, er enghraifft wrth gynnig hyfforddiant i ddatblygu gwybodaeth a medrau athrawon a chynorthwywyr i gefnogi disgyblion ADY. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o werthusiadau gan asiantaethau allanol i fireinio'r ddarpariaeth, er enghraifft trwy wella trefniadau diogelu yn ogystal â'r ddarpariaeth ADY yn dilyn adolygiadau gan yr awdurdod lleol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cyfrannu'n briodol i werthuso'r ddarpariaeth a safonau, er bod y pandemig wedi llesteirio ychydig ar ymweliadau â'r ysgol. Mae adroddiadau'r pennaeth ac arweinwyr i'r llywodraethwyr yn arfarnol ac yn cynnig adlewyrchiad teg a chywir o fywyd a gwaith yr ysgol. Yn ogystal, maent yn cynnig cyflwyniadau ac adborth buddiol i lywodraethwyr, gan gynnwys adrodd ar gynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun ôl-arolygiad. O ganlyniad, mae gan lywodraethwyr wybodaeth gadarn am gryfderau a meysydd i'w gwella yn ogystal â chynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun ôl-arolygiad.

### A3. Sefydlu gweithdrefnau olrhain cynnydd hylaw a sicrhau bod athrawon yn gwneud defnydd effeithlon ohonynt i ymestyn y dysgu

Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae arweinwyr ac athrawon yn defnyddio ystod eang o asesiadau ac arsylwadau yn effeithiol er mwyn mesur cynnydd a chyflawniad disgyblion. Maent wedi dechrau defnyddio'r wybodaeth a gesglir i adnabod y bylchau yn nysgu'r disgyblion yn briodol. Golyga hyn eu bod yn cynllunio cyfleoedd addas i gefnogi pob disgybl, gan gynnwys y disgyblion sy'n derbyn ymyraethau gwahanol. O ganlyniad, mae cynlluniau tymor byr athrawon yn dangos ystod o weithgareddau a phrofiadau dysgu sy'n cyfateb yn dda i anghenion y disgyblion.

Mae staff yr ysgol yn cyd-safoni gwaith disgyblion yn rheolaidd, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hyder i drafod safon cyflawniad disgyblion. Golyga hyn fod y wybodaeth sy'n cael ei chofnodi ar gyfer tracio cynnydd disgyblion yn fwy cywir a defnyddiol. Erbyn hyn, mae staff wedi dechrau cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion eraill er mwyn cymedroli a chyd-safoni gwaith disgyblion. O ganlyniad, mae dealltwriaeth athrawon o gynnydd a chyflawniad disgyblion yn datblygu'n dda. Yn ogystal, maent wedi rhannu'r arfer dda hon gydag ysgol arall.

Mae arweinwyr wedi trefnu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer y staff er mwyn gwella eu dealltwriaeth o weithdrefnau asesu ar gyfer dysgu ymhellach. Er enghraifft, wrth ystyried strategaethau holi effeithiol a'r defnydd orau o hunanasesu ac asesu cyfoedion, mae'r staff yn fwy hyderus i ganfod dealltwriaeth disgyblion yn ystod gweithgareddau ac i addasu eu mewnbwn i ymateb i hyn.

### A4. Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cwrdd â'u anghenion

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i gefnogi disgyblion ADY. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol wedi gweithio'n ddiwyd gyda phob aelod o staff er mwyn sicrhau dealltwriaeth a chysondeb yn narpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ADY. Mae'r staff yn deall eu rôl yn dda wrth adnabod yn gynnar y disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn addysgol neu'n emosiynol. Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant perthnasol am drefniadau ADY, gan gynnwys sut i weithredu ymyraethau yn fwy effeithiol. Maent yn trafod disgyblion sy'n achosi pryder neu'n tangyflawni yn rheolaidd mewn cyfarfodydd staff. O ganlyniad, mae'r ysgol nawr yn gweithredu ymateb graddedig effeithiol i ymateb yn llawn i anghenion disgyblion, gyda'r disgyblion mwyaf anghenus yn derbyn y cymorth angenrheidiol yn amserol. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn diwallu anghenion y disgyblion hyn yn effeithiol.

Mae'r cydlynydd yn monitro ac yn dadansoddi canfyddiadau'r ymyraethau yn rheolaidd, gan addasu'r mewnbwn neu'n trefnu hyfforddiant ychwanegol i staff, fel y bo'n briodol. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi trefnu bod aelod o staff wedi ei hyfforddi fel cynorthwyydd llythrennedd emosiynol er mwyn darparu cymorth wedi ei deilwra'n arbennig ar gyfer disgyblion bregus. Mae'r ysgol nawr yn cyfathrebu'n glir a chyson gyda rhieni a gwarchodwyr am anghenion a chynnydd eu plant. Maent yn cael eu cynnwys yn rheolaidd yn y broses o gynllunio a monitro datblygiad eu plant. Mae'r ysgol yn paratoi'n fwriadus ar gyfer dyfodiad y rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol wrth sicrhau bod y ddogfennaeth briodol yn cael ei pharatoi'n gywir ar gyfer disgyblion penodedig.

### A5. Gwella safonau llythrennedd disgyblion

Mae'r ysgol wedi gweithio'n llwyddiannus gydag ysgol gyfagos, yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol i wella medrau llythrennedd disgyblion. Mae'r dirprwy bennaeth gweithredol dros dro a'r athrawon wedi sefydlu trefniadau cadarn i wella'r ddarpariaeth a medrau disgyblion. Mae hyn yn cynnwys trefnu hyfforddiant a chefnogaeth berthnasol i ddatblygu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu disgyblion ynghyd ag ymgymryd â gweithgareddau monitro'r ddarpariaeth a safonau yn rheolaidd. O ganlyniad, maent yn gweithredu'n llwyddiannus ar strategaethau ysgol gyfan i wella medrau llythrennedd disgyblion.

Gan ystyried mai ychydig o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd, mae arweinwyr ac athrawon wedi ymateb yn brydlon i anghenion ieithyddol y disgyblion yn ystod y pandemig. Maent wedi cyflwyno cynllun llafaredd Cymraeg sydd wedi ei addasu i fodloni anghenion penodol y disgyblion. Mae'r cynllun yn darparu rhaglen iaith strwythuredig sy'n sicrhau bod medrau disgyblion yn datblygu'n gynyddol ar draws yr ysgol. Mae staff yn cynnal sesiynau buddiol i atgyfnerthu'r Gymraeg, er enghraifft trwy weithredu sesiynau drilio iaith a chanu yn ddyddiol yn y cyfnod sylfaen. Mae'r cysondeb yn y ddarpariaeth ar draws yr ysgol yn cael effaith

gadarnhaol ar safonau llafaredd disgyblion, gyda llawer yn fwy hyderus wrth drafod eu gwaith, cynnig syniadau a chyfrannu at drafodaethau grwp neu ddosbarth.

Yn y cyfnod sylfaen, mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus i ddatblygu medrau darllen cynnar disgyblion. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth gadarn o lythrennau a strategaethau darllen priodol. O Flwyddyn 1 ymlaen, mae staff yn cyflwyno trefniant 'carwsel darllen' yn ddyddiol er mwyn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymarfer a ddarllen at wahanol bwrpasau ac amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o sut i ymestyn medrau darllen a dealltwriaeth disgyblion, er enghraifft trwy eu hannog i ymestyn eu hymatebion ac i ddod i gasgliad wrth drafod erthygl papur newyddion. Mae cofnodion monitro arweinwyr a chyflawniad disgyblion yn dangos llwyddiant cynnar y trefniadau hyn.

Erbyn hyn, mae gan yr ysgol gynlluniau pwrpasol yn eu lle ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu disgyblion. Mae arweinwyr a staff wedi cydweithio'n effeithiol i werthuso a gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau. Maent wedi creu cynllun tymor hir sy'n sicrhau bod disgyblion yn dysgu am nodweddion gwahanol ddulliau ysgrifennu ac yn eu hymarfer yn rheolaidd. Yn gynnar yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar a medrau modur mân trwy ystod addas o brofiadau dysgu a chwarae ymarferol, er enghraifft trwy ddefnyddio plyciwr i afael ar wrthrychau o wahanol lliw. Erbyn Blwyddyn 2, mae disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o ysgrifennu at wahanol bwrpasau, er enghraifft trwy ysgrifennu erthygl papur newydd am helyntion Frans o wlad Awstria. Mae llawer yn defnyddio atalnodi a ffurf gryno'r ferf yn gynyddol gywir yn eu gwaith. Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn cynllunio cyfres o wersi a phrofiadau dysgu yn effeithiol sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at safonau ysgrifennu disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion ar frig yr ysgol yn defnyddio ystod dda o ansoddeiriau, cymariaethau a throsiadau i gyfoethogi eu hadroddiadau papur newydd am fomio Abertawe o'r awyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

**A6. Sicrhau bod y cynllunio a'r addysgu yn darparu her briodol i ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu a'u datblygu'n ddysgwyr annibynnol**

Mae athrawon nawr yn cynllunio'n fwriadus er mwyn sicrhau bod y profiadau dysgu yn herio disgyblion yn fwy effeithiol. Maent yn cynnwys llais y disgybl wrth gynllunio themâu newydd, sy'n ymrwymo disgyblion i waith y dosbarth ac yn ennyn eu diddordeb yn dda. Mae'r cynlluniau'n adeiladu ar ddysgu blaenorol y disgyblion yn effeithiol. Yn yr arfer orau, mae staff yn cynllunio tasgau cyfoethog sydd yn gosod lefel o her briodol ar gyfer ystod eang o alluoedd yn y dosbarth. Yn y dosbarthiadau ieuengaf, mae athrawon yn dechrau datblygu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymarfer eu medrau yn yr ardaloedd dysgu yn fwy addas. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio cod QR er mwyn cael mynediad i dasgau rhifedd i'w datrys ar lechi digidol. Er hyn, nid yw'r gweithgareddau dysgu a chwarae bob tro'n herio disgyblion yn ddigon effeithiol yn y dosbarthiadau hyn.

Pan mae'r addysgu ar ei fwyaf effeithiol, mae'r sesiynau yn sionc ac yn bachu dychymyg disgyblion yn dda. Mae'r athrawon yn rhannu amcanion y sesiwn yn glir er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn deall gofynion y dasg ac yn ymateb yn eiddgar i'r heriau. Maent yn deall y meini prawf llwyddiant ac yn siarad yn aeddfed ar ddiwedd

eu tasgau am ba mor llwyddiannus oedden nhw. O ganlyniad, mae disgyblion yn gweithio'n fwyfwy annibynnol. Mae'r holl staff yn modelu iaith lafar gywir yn effeithiol ar draws yr ysgol.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn cyflwyno gweithgareddau gyda chyflymder addas sy'n cynnal diddordeb llawer o ddisgyblion drwy gydol y sesiwn. Maent yn holi disgyblion yn effeithiol er mwyn ymestyn eu geirfa a'u dealltwriaeth. Mae'r staff yn annog y disgyblion i gydweithio mewn parau a grwpiau yn aml er mwyn cynnal a herio ei gilydd. Yn gyffredinol, mae gan y staff ddisgwyliadau uchel ac mae'r disgyblion yn ymateb yn dda i'r her, ar y cyfan. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn safon gwaith disgyblion dros amser, gyda mwyafrif yn cwblhau gwaith sy'n unol â'u hoed a'u gallu. Er enghraifft, mae staff ar frig yr ysgol yn annog disgyblion i ystyried a thrafod effaith darlun o garcharorion mewnol yn adeg yr Ail Ryfel Byd ar eu pum synnwyr. Golyga hyn fod disgyblion yn cael eu herio i feddwl yn ddwys am amodau yn y gwersyll ac, o ganlyniad, yn ysgrifennu amdano i safon uchel. Pan nad yw'r addysgu mor effeithiol, mae staff yn tueddu gor-arwain disgyblion ac yn colli cyfleoedd i ymestyn eu medrau a dealltwriaeth ymhellach.

Mae prosesau monitro trylwyr, rheolaidd a chywir gan arweinwyr yn sicrhau adborth cyson a chywir i athrawon ar safon yr addysgu. Golyga hyn fod staff yn parhau i ddatblygu eu cynllunio a'u darpariaeth yn effeithiol er mwyn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gael eu herio yn gyson ac i ddatblygu eu hannibyniaeth.

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**